Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arweiniad ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

## Taflen wybodaeth

| |
|---|
| Blwch gwybodaeth<br><br>Am ragor o gyngor, cysylltwch â: y Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth<br><br>Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021<br><br>Fersiwn: 6.0 |

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Phil Sweeney | Ionawr 2014 | Drafft ar gyfer sylwadau staff (cyhoeddwyd ar y cyd ag ailddrafft o'r Polisi ar Ddefnyddio TGCh) |
| 2.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | 14 Ebrill 2014 | Cwblhawyd yr adolygiad |
| 3.0 | Phil Sweeney | Mawrth 2015 | Diweddarwyd yn unol â Pholisi Cyflogeion y Gwasanaeth Sifil:<br>Ychwanegiadau at: baragraffau 1.18 a 4.10<br>Paragraffau newydd: 1.30, 3.21, a 4.7 |
| 4.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Chwefror 2017 | Newid enw'r polisi i'r 'Defnydd Personol ar Gyfryngau Cymdeithasol'<br><br>Ychwanegu na ddylid datgan ar gyfryngau cymdeithasol personol eich bod yn gweithio i Estyn **neu'r gwasanaeth sifil**.<br><br>Cadarnhau ein safiad o ran gofyn i staff hyrwyddo negeseuon Estyn trwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol (Para 1.19). |
| 5.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Mai 2018 | Adolygiad cyn cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). |
| 6.0 | Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Gorffennaf 2021 | Symleiddio teitl y polisi<br>Diweddaru'r iaith fel ei bod yn cyd-fynd â Naws ein Llais<br>Diweddaru ein safiad o ran enwi cyflogwr ar y cyfryngau cymdeithasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dileu ailadrodd<br>Ychwanegu gwybodaeth am LinkedIn<br>Diweddaru astudiaethau achos ar y cyfryngau cymdeithasol<br>Diweddaru Cwestiynau Cyffredin<br>Ychwanegu atodiad ‘dolenni defnyddiol’ |

Mae rheolwyr Estyn ac undebau llafur wedi cytuno ar y polisi hwn.

**Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae’r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflenwi Estyn.

Mae asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb wedi’i gynnal, a chredir nad yw’r polisi hwn yn effeithio’n niweidiol ar unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol na’r iaith Gymraeg.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Arweiniad y polisi ar y cyfryngau cymdeithasol** **2**

I bwy mae'r canllaw hwn yn berthnasol? 2

Beth yw cyfryngau cymdeithasol? 2

Pam mae angen polisi ac arweiniad arnom? 2

Cyfrifoldeb 3

Parch 3

Cadw'n ddiogel ar-lein 4

Cynrychiolaeth 4

Cynrychiolaeth broffesiynol 5

Mynediad 5

Camddefnyddio 6

Monitro 7

**Atodiad 1 – Astudiaethau achos ar y cyfryngau cymdeithasol** **8**

**Atodiad 2 – Cwestiynau cyffredin** **12**

**Atodiad 3 – Dolenni defnyddiol** **14**

## Cyflwyniad

Mae pob un ohonom ni'n defnyddio'r rhyngrwyd bob dydd ac, yn aml, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn elfen bwysig o'n hamser ar-lein. Mae'n ein helpu i gadw mewn cysylltiad â'n ffrindiau a'n teulu, dal atgofion ar gof a chadw, a rhannu ein profiadau â chymunedau ledled y byd. A ninnau'n sefydliad y llywodraeth, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i ni gysylltu â'n rhanddeiliaid mewn modd mwy uniongyrchol ac anffurfiol nag unrhyw sianel arall. Mae'n caniatáu i ni gyfathrebu mewn ffordd fwy effeithlon ac agored, a chyrraedd ein rhanddeiliaid yn y mannau y maent yn eu defnyddio'n barod i ryngweithio ag eraill.

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Pan fyddwch chi ar-lein, dylech barchu eraill a'i gwneud hi'n glir pwy rydych yn ei gynrychioli, p'un a ydych chi'n siarad yn bersonol neu ar ran sefydliad. Pwy bynnag rydych chi'n ei gynrychioli, dylech bob amser gofio gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil: uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a diduedddrwydd.

Ein tîm Cyfathrebu sy'n rhedeg ein cyfrifon corfforaethol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys Twitter, Facebook, YouTube, LinkedIn a blog Estyn ar ein gwefan.

Cofiwch, nid yw rhoi rhywbeth ar y cyfryngau cymdeithasol fel cael sgwrs gyda ffrind yn gyhoeddus – gallai eich post gael ei weld neu ei rannu gan bobl eraill ddirifedi, ymhell ar ôl i chi ei roi ar-lein. **Os na fyddech chi'n ei wneud all-lein, peidiwch â'i wneud ar-lein #meddyliwchcynpostio**

## Arweiniad y polisi ar y cyfryngau cymdeithasol

**I bwy mae'r arweiniad hwn yn berthnasol?**

1.1 Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Estyn; yn eu hamser gwaith neu bersonol, gan ddefnyddio dyfeisiau gwaith neu rai personol. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion dros dro a pharhaol, gweithwyr asiantaeth, secondeion a staff sydd ar fenthyg o adrannau eraill y llywodraeth.

**Beth yw'r cyfryngau cymdeithasol?**

1.2 Mae cyfryngau cymdeithasol yn blatfformau ar-lein lle y gallwch rannu cynnwys digidol, er enghraifft testun, lluniau a fideos. Dyma rai enghreifftiau:

- Facebook
- Twitter
- Whatsapp
- Instagram
- YouTube a Vimeo
- Linkedin
- Snapchat
- Blogs
- Wikipedia
- Fforymau a byrddau trafod

Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw wasanaethau negeseuon sy'n integredig yn y platfformau hyn (e.e. Facebook messenger neu negeseuon uniongyrchol (DM) Twitter).

**Pam mae angen polisi ac arweiniad arnom?**

1.3 Rydym ni wedi ysgrifennu'r arweiniad hwn i egluro beth sy'n briodol ac yn amhriodol i'n staff pan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; mae'n amlygu'r pethau allweddol i'w cofio ac mae'n egluro ffiniau a phroblemau posibl i helpu'n staff i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.

1.4 Nid yw'r cyfryngau cymdeithasol bob amser yn breifat. Gallech feddwl eich bod yn postio rhywbeth i gynulleidfa benodol, ond gall unrhyw un sy'n gweld eich postiadau eu copïo a'u hanfon ymlaen at bobl eraill yn hawdd. Dyma'r achos hefyd o ran negeseuon preifat; mae'n hawdd tynnu sgrinlun a'i rannu gydag unrhyw un. Pan fyddwch chi wedi rhannu rhywbeth ar-lein, rydych chi'n colli rheolaeth arno; ni ellir ei dynnu'n ôl.

1.5 Mae'n bwysig cofio bod yr hyn rydych chi'n ei wneud ar-lein yn gallu effeithio ar eich gwaith, ar enw da'r Gwasanaeth Sifil, ar Estyn ac ar ein cyflogeion, ein cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill, felly **meddyliwch cyn postio.**

1.6 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi 'llyfr chwarae ynghylch y cyfryngau cymdeithasol' sy'n disgrifio sut mae gwasanaeth digidol y llywodraeth yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae ein polisi a'n harweiniad yn ategu, yn egluro ac yn ymhelaethu ar

yr arweiniad hwn ac mae'n darparu fframwaith i gyflogeion deimlo bod y grym ganddynt i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Mae dolenni i arweiniad defnyddiol pellach ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Atodiad 3 – Dolenni defnyddiol.

1.7 Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn rhwymo pob gwas sifil. Mae'r Cod yn amlinellu ein gwerthoedd craidd, sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Hefyd, mae'n disgrifio'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ohonom, p'un ai a ydym ni ar-lein neu all-lein, mewn amser gwaith neu yn ein hamser personol. Gallai postio unrhyw gynnwys ar-lein yr ystyrir ei fod yn mynd yn groes i God y Gwasanaeth Sifil neu i god ymddygiad Estyn arwain at gamau disgyblu (gweler adran **Camddefnyddio** yr arweiniad hwn).

**Cyfrifoldeb**

1.8 Dylech ddilyn yr un rheolau wrth ryngweithio â phobl ar-lein ag y byddech yn gyhoeddus neu gyda'ch cydweithwyr; er enghraifft, rhoi rhywbeth ar hysbysfwrdd yn y gwaith, siarad â'ch ffrindiau neu'ch cydweithwyr mewn man cyhoeddus, neu siarad â newyddiadurwr. Cofiwch y gall defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ei gwneud hi'n anodd tynnu post yn ôl.

1.9 Chi sy'n gyfrifol am bopeth rydych chi'n ei bostio ar-lein, p'un a fyddwch chi'n defnyddio'ch enw'ch hun neu ffugenw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth rydych chi'n dewis ei rannu ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol chi a wnaed gan bobl eraill. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ac yn deall y Telerau Defnyddio neu'r Rheolau Ymrwymo ar gyfer platfformau'r cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n eu defnyddio.

1.10 Os bydd un o'ch cydweithwyr neu was sifil arall yn postio rhywbeth amhriodol, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell am hyn. Byddwch yn ofalus i beidio â gwaethygu'r sefyllfa neu lusgo'ch hun i'r sefyllfa trwy ymuno â dadl ar-lein.

**Parch**

1.11 Dangoswch yr un parch tuag at eraill ag y byddech petaech chi'n rhyngweithio wyneb yn wyneb. Gofynnwch i chi'ch hun:

- A allai pobl eraill, er enghraifft y cyhoedd, y cyfryngau neu'ch cyflogwr, ddeall eich post mewn ffordd wahanol? Efallai nad y rhain fydd eich cynulleidfa fwriadedig, ond gallai unrhyw un weld beth rydych chi wedi'i bostio.
- A allai beryglu'ch diogelwch chi neu eraill? Ystyriwch sut gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio gan rywun sydd ag agenda wahanol i chi.
- A allai effeithio ar breifatrwydd personol pobl eraill? Er enghraifft, tagio rhywun yn eich post am gyfarfod gwaith neu noson allan.
- Ai'r cyfryngau cymdeithasol yw'r ffordd orau o gyfleu'r hyn rydych chi'n ceisio'i ddweud? Er y gall defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fod yn effeithiol iawn, weithiau, gallai sgwrs sydyn, galwad ffôn neu e-bost fod yn fwy priodol.
- A oes effaith dros dro ar eich crebwyll? Er enghraifft, os ydych o dan ddylanwad alcohol.

1.12 Mae gan bobl lefelau gwahanol o arbenigedd ar-lein ac ni fydd pawb yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol am yr un rhesymau. Er enghraifft, efallai na fydd rhai pobl am ryngweithio â’u cydweithwyr ar y cyfryngau cymdeithasol; dewis personol yw hyn a dylem ni oll ei barchu.

**Cadw’n ddiogel ar-lein**

1.13 Pan fyddwch yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol, yn eich gwaith neu yn eich bywyd personol, cofiwch:

- **Defnyddiwch eich synnwyr cyffredin** – mae’r cyfryngau cymdeithasol yn ein helpu i weithio’n agored a chysylltu â’r dinasyddion rydym ni’n eu gwasanaethu, ond cofiwch ddefnyddio synnwyr cyffredin!
- **Cadwch at God y Gwasanaeth Sifil** – defnyddiwch yr un safonau ar-lein ac y byddech all-lein
- **Amheuon** – os oes gennych unrhyw amheuon, peidiwch â’i bostio
- **Cywirdeb** – gwiriwch gywirdeb a sensitifrwydd yr hyn rydych chi’n ei osod ar-lein cyn ei roi’n fyw
- **Parhaol** – cofiwch, pan fydd rhywbeth wedi’i bostio ar-lein, mae’n anodd iawn ei ddileu

1.14 Sut i gadw’n ddiogel ar-lein:

- **Dysgwch reolau** pob safle’r cyfryngau cymdeithasol cyn ei ddefnyddio. Cofiwch fod safleoedd y cyfryngau cymdeithasol yn diweddaru’u canllawiau yn aml, felly’ch cyfrifoldeb chi yw gwybod y diweddaraf.
- **Defnyddiwch gyfrineiriau cryf** i amddiffyn eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol rhag cael eu hacio ac ystyriwch eu newid yn rheolaidd.
- **Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd**. Bydd defnyddio’r gosodiadau preifatrwydd cryfaf yn eich helpu i gadw’ch gwybodaeth yn fwy diogel. Dylech wirio’r gosodiadau hyn yn rheolaidd.
- **Cadwch eich gwybodaeth bersonol yn breifat** Er enghraifft, peidiwch â datgelu’ch dyddiad geni/lleoliad/manylion cyswllt, a allai’ch agor i fygythiad gan eraill, gan gynnwys troseddwyr.
- **Byddwch yn ofalus am bostiadau sy’n cynnig rhywbeth sy’n rhy dda i fod yn wir**, dilynwch eich greddf os ydych yn amau bod rhywbeth yn amheus. Os byddwch yn gwybod bod rhywbeth yn dwyllodrus, rhowch wybod i safle’r cyfryngau cymdeithasol amdano. Byddwch yn effro i negeseuon sgam sy’n anelu at eich cael chi i ddatgelu gwybodaeth a fydd yn arwain at eich twyllo chi neu ddwyn eich manylion adnabod.
- **Sicrhewch fod meddalwedd diogelwch ddibynadwy a chyfredol gennych** ar bob dyfais rydych chi’n ei defnyddio i gysylltu â’r rhyngrwyd, i’ch helpu i gadw’n ddiogel ar-lein.

**Cynrychiolaeth**

1.15 Rydym yn deall eich bod yn falch o ble’r ydych chi’n gweithio ac efallai yr hoffech ei gynnwys yn eich proffil, neu siarad â’ch ffrindiau amdano ar-lein. Yn gyffredinol, os oes gennych dudalen bersonol ar y cyfryngau cymdeithasol, **dylech feddwl yn ofalus cyn dewis enwi Estyn neu’r Gwasanaeth Sifil yn gyflogwr.** Os byddwch yn rhannu pwy yw eich cyflogwr, gallai pobl gamddehongli'ch safbwyntiau a meddwl

eu bod yn cynrychioli Estyn a'r Gwasanaeth Sifil. Dylech gofio y gallai pobl feddwl bod eich cyflogwr yn rhannu eich barn, hyd yn oed gydag ymwadiad.

1.16 Os ydych chi'n awyddus i enwi'ch cyflogwr ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, fel LinkedIn, awgrymwn nad ydych yn cynnwys:

- Manylion cliriadau diogelwch sydd gennych.
- Cyfeiriad at gyflogaeth bresennol neu flaenorol mewn swyddi sensitif.
- Manylion cyswllt, gan gynnwys lle gwaith neu gyfeiriad cartref – mae hyn yn arbennig o berthnasol os gallai'r lleoliad awgrymu cysylltiad â chyflogaeth sensitif.
- CV neu hanes gyrfaol manwl sy'n cynnig gwybodaeth fel enwau prosiectau, cyllidebau neu grynodebau.
- Cysylltiadau helaeth â chydweithwyr eraill mewn cyflogaeth sensitif neu wasanaethau sensitif y llywodraeth.
- Unrhyw wybodaeth sydd â'r potensial i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol a/neu sensitif.

1.17 Os sylwch fod rhywun yn cam-gynrychioli Estyn, neu'n postio ar ran y sefydliad ond heb awdurdod i wneud hynny, rhowch wybod i'ch rheolwr llinell.

1.18 Weithiau, bydd staff eisiau rhannu ein cynnwys ar-lein trwy eu sianeli personol ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall staff rannu cynnwys heb ychwanegu sylwadau, barn bersonol na datgan mai Estyn yw eu cyflogwr. Dylai staff rannu cynnwys sy'n gysylltiedig ag Estyn trwy eu sianeli personol dim ond os byddant yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny.

**Cynrychiolaeth broffesiynol**

1.19 Os ydych wedi'ch awdurdodi i gynrychioli Estyn ar-lein trwy ein sianeli swyddogol ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. ein blog, dylech ddilyn yr egwyddorion sydd wedi'u disgrifio yn yr arweiniad hwn. Mae hwn yn berthnasol bob amser y byddwch chi'n cynrychioli Estyn, p'un ai trwy gyfrif proffesiynol neu gyfrif wedi'i frandio, ar offer TG gwaith neu ar offer personol. Gwnewch yn siŵr eich bod ond yn rhannu neu'n rhoi sylwadau ar wybodaeth sy'n gywir, sy'n cydymffurfio â'n polisi ac mae gennych yr awdurdod i'w rhannu. Mae gwybodaeth, cysylltiadau cleientiaid a chyfrineiriau sy'n gysylltiedig â chyfrifon busnes ar y cyfryngau cymdeithasol yn eiddo i Estyn ac yn parhau'n eiddo i Estyn hyd yn oed pan na fyddwn yn cyflogi unigolyn mwyach.

1.20 Mae canllawiau'r cyfryngau cymdeithasol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a'r Swyddfa Gartref ar y cyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes.

**Mynediad**

1.21 Mae ein safiad ynghylch mynd at gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol yn ystod amser gwaith wedi'i gynnwys yn ein Polisi ar Ddefnyddio TG. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw eich defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith gydag uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd.

**Camddefnyddio**

1.22 Os byddwch chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn amhriodol (naill ai yn y gwaith neu yn eich amser personol), gallai Estyn gymryd camau disgyblu o ganlyniad. Gallai defnydd amhriodol gynnwys:

- Bwlio neu aflonyddu. Mae bwlio ac aflonyddu ar-lein yr un mor ddifrifol ag y mae yn bersonol. Gallai gynnwys defnyddio iaith fygythiol neu sarhaus, neu bostio jôcs di-chwaeth neu sylwadau difrïol. Mae'r cyfan sy'n cael sylw ym mholisi Estyn ar fwlio ac aflonyddu yn berthnasol i'ch rhyngweithiadau ar-lein.
- Postio sylwadau sy'n anghyson â safonau a gwerthoedd Estyn a/neu God y Gwasanaeth Sifil.
- Postio deunydd amhriodol sy'n dwyn anfri ar Estyn.
- Postio sylwadau difrïol/difenwol am unrhyw berson neu sefydliad. Mae datganiad difenwol yn un sy'n rhoi gwybodaeth ffug sy'n niweidio enw da person neu sefydliad arall. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth a rannwyd yn wreiddiol gan rywun arall; pan fyddwch yn rhannu rhywbeth, gellir eich dal chi'n atebol yn bersonol am y cynnwys, fel pe bai wedi'i bostio gennych chi.
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am fusnes Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu ein rhanddeiliaid eraill.
- Rhoi sïon ar led neu ailbostio sylwadau amhriodol am Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu ein rhanddeiliaid eraill.
- Unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol personol yn ystod amser gwaith sy'n effeithio'n negyddol ar eich gallu i gyflawni eich gwaith.

1.23 Os byddwch yn gweld cydweithiwr neu was sifil arall yn ymddwyn yn amhriodol ar-lein, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Efallai y byddwch am argraffu neu dynnu sgrinlun o'r cynnwys i'w drosglwyddo i'ch rheolwr llinell. Ceisiwch beidio ag ymyrryd yn uniongyrchol; ni ddylech ychwanegu sylwadau at y post na chysylltu â'r unigolyn, oherwydd efallai nad eich lle chi yw newid ei bost. Yn hytrach, trosglwyddwch y wybodaeth i'ch rheolwr a gadewch i'ch rheolwr ddelio â'r mater yn briodol.

1.24 Os ydych chi'n rheolwr ac mae aelod staff yn rhoi gwybod i chi am ddefnydd amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol, dyma rai pethau i'w hystyried:

- Gwnewch yn siŵr fod dealltwriaeth lawn gennych o'r math o gyfryngau cymdeithasol a defnyddiwyd a pha gynulleidfa y mae'n ei gyrraedd.
- Os oes modd, mynnwch sgrinlun o'r post neu gopi wedi'i argraffu.
- Beth yw'r risg i Estyn?
- A yw'r cynnwys yn effeithio ar gyflogai arall? Er enghraifft, pe byddai rhywun yn teimlo'i fod yn cael ei fwlio ar-lein.
- A oes angen i chi gynnwys rhywun arall? Er enghraifft, a oes angen i chi ddweud wrth dîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Estyn, y tîm AD, Swyddog Diogelwch Seiber Technoleg Gwybodaeth neu aelod arall o'r uwch reolwyr?
- A oes angen ymchwiliad manwl?
- A fyddai'n briodol gofyn i'r unigolyn ddileu'r cynnwys? Efallai y byddwch am wneud nodyn o'i ymateb.
- Beth yw'r opsiynau disgyblu y gallwch eu cymryd (os o gwbl) ac a ydynt yn gymesur ag effeithiau neu effeithiau posibl y cynnwys?

Cofiwch y dylai pob achos gael ei thrin yn unigol.

1.25 Mae'n gyfrifoldeb ar bob cyflogai i sicrhau bod eu rhyngweithiadau ar-lein yn cyd-fynd â'r gyfraith, er enghraifft cyfreithiau difenwi, hawlfraint, cydraddoldeb a diogelu data. Gallai tor-cyfraith gynnwys cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu ddata personol heb gydsyniad, sy'n groes i'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Os ystyrir bod eich gweithredoedd yn drosedd, gallent arwain at eich erlyn.

1.26 Mae'n ofynnol bod cyflogeion yn cydweithredu'n llawn ag ymchwiliadau i unrhyw weithred sy'n groes i'r polisi hwn. Gallai hyn gynnwys darparu gwybodaeth am ddeunydd ar-lein neu fynediad ato, a dileu cynnwys ar-lein pan ofynnir i'r unigolyn wneud hynny.

**Monitro**

1.27 Nid ydym yn monitro'r defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol fel mater o drefn. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol, os ydym wedi cael gwybod am effaith bosibl ar y sefydliad, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu ein rhanddeiliaid eraill, rydym yn cadw'r hawl i ymchwilio i ddefnydd cyflogai o'r cyfryngau cymdeithasol o fewn y gweithle a'r tu allan iddo.

1.28 Gall defnydd gormodol o'r cyfryngau cymdeithasol yn y gweithle, boed gan ddefnyddio dyfeisiau gwaith neu bersonol, gael ei fonitro'n rhan o'n polisi ar ddefnyddio TG.

## Atodiad 1 – Astudiaethau achos ar y cyfryngau cymdeithasol

**Enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn helpu sefydliadau i:

- ymgysylltu â chyflogeion a chwsmeriaid ar raddfa ehangach
- cyfathrebu mewn modd mwy uniongyrchol
- bod yn fwy tryloyw ac atebol

Dyma rai enghreifftiau o hyn yn gweithio'n dda.

**Enghraifft 1**

Arweiniodd Estyn ymgyrch i ostwng baich gwaith athrawon, gan weithio gyda 17 o sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac undebau addysg. Y cyfryngau cymdeithasol oedd un o'r prif ddulliau a oedd yn anfon defnyddwyr at wefan yr ymgyrch. Fe wnaeth pob sefydliad hyrwyddo'r negeseuon trwy eu sianeli eu hunain, gan arwain at 50,000 a mwy o argraffiadau ar Twitter trwy ein dau gyfrif Twitter (@EstynHMI ac @EstynAEM). O ganlyniad i'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd y poster ei lawrlwytho dros 3,000 tro ac ysgogodd sgyrsiau a chefnogaeth gan athrawon hefyd.

**Enghraifft 2**

Defnyddiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) y cyfryngau cymdeithasol trwy gydol Gemau Olympaidd Llundain 2012 i fonitro sgyrsiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Caniataodd hyn iddynt weld beth roedd pobl yn siarad amdano a llwyddont i chwalu sïon am achosion o'r norofirws yn gysylltiedig â bwyd yn gyflym iawn. Roeddent yn gallu cyfathrebu i'r ddau gyfeiriad â phobl ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhannu negeseuon a newyddion allweddol gyda'r gymuned ar-lein ar unwaith.

**Enghraifft 3**

Defnyddiodd Clwb Pêl-droed Wrecsam y cyfryngau cymdeithasol yn eu brwydr i achub y clwb pêl-droed rhag difodiant. Codont £100,000 mewn cwta 24 awr trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith eu cefnogwyr. Rhannodd cefnogwyr wybodaeth rhwng platfformau gwahanol y cyfryngau cymdeithasol a sicrhaodd y gefnogaeth a gawsant ddyfodol y clwb.

**Enghraifft 4**

Creodd tîm Llwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil dudalen Facebook i ryngweithio ag ymgeiswyr posibl a rhannu gwybodaeth am raglen y Llwybr Carlam. Mae swyddogion presennol y Llwybr Carlam yn y Gwasanaeth Sifil yn postio gwybodaeth am eu swydd a'u gyrfa, gan wahodd cwestiynau gan eu cynulleidfa. Mae'r atebion i'w gweld gan bawb, sy'n rhoi cipolwg uniongyrchol i waith swyddogion y Llwybr Carlam yn y Gwasanaeth Sifil.

**Risgiau posibl defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

Wrth i'r cyfryngau cymdeithasol ddod yn fwyfwy poblogaidd, mae mwy o enghreifftiau posibl o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu, gwastraffu amser a'r defnydd amhriodol o'r platfform. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos rhai o'r risgiau a rhoddant enghreifftiau o ffyrdd o'u lliniaru.

**Enghraifft 1**

Rhoddodd gweithiwr a oedd yn gweithio mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid sylwadau atgas ar ei thudalen Facebook am nifer o gwsmeriaid a oedd wedi'i sarhau ar lafar. Enwodd y gweithiwr ble roedd yn cael ei chyflogi a chwynodd cwsmer amdani. Arweiniodd hyn at gymryd camau disgyblu yn erbyn y gweithiwr am ddwyn anfri ar enw'r cyflogwr.

**Cofiwch:**

- Ni waeth beth yw eich gosodiadau preifatrwydd, ni allwch warantu y bydd yr hyn rydych chi'n ei bostio ar-lein yn aros ar-lein.
- Os ydych chi wedi enwi eich cyflogwr ac mae natur eich sylwadau yn dwyn anfri arnynt, gallech gael eich disgyblu a hyd yn oed eich diswyddo.

**Enghraifft 2**

Postiodd gweithiwr sylwadau amhriodol am gydweithiwr ar Facebook. Roedd lefel preifatrwydd y gweithiwr hwn wedi'i osod ar 'ffrindiau' yn unig. Anfonodd un o'i ffrindiau Facebook y sylwadau ymlaen, ac fe'u hanfonwyd at reolwr y gweithiwr. Ystyriwyd bod y sylwadau yn aflonyddu ac yn gamymddygiad dybryd, gan arwain at ddiswyddo'r gweithiwr.

**Cofiwch:**

- Nid yw gosod eich gosodiadau preifatrwydd ar 'ffrindiau yn unig' yn sicrhau na chaiff yr hyn rydych chi'n ei bostio ei rannu.
- Mae bwlio ac aflonyddu'n cael eu trin yr un mor ddifrifol ar-lein ag y byddent all-lein. Dylai rheolwyr drin unrhyw wybodaeth a roddir iddynt gyda'r pwys mwyaf a gweithredu arni ar unwaith ac yn briodol.

**Enghraifft 3**

Roedd gweithiwr yn flin gyda'i gyflogwr a phostiodd sylwadau negyddol amdanynt ar ei dudalen Facebook personol. Fe wnaeth un o ffrindiau Facebook y gweithiwr ddwyn y sylwadau hyn i sylw'r cyflogwr a chafodd y gweithiwr ei ddiswyddo wedi hynny. Dadleuodd y gweithiwr nad oedd wedi enwi ei gyflogwr a bod ei dudalen Facebook yn breifat. Cytunwyd bod y diswyddiad yn deg, gan fod y cyflogwr wedi rhoi llawlyfr i'r holl staff, yn datgan yn glir sut y dylent gyflwyno'u hunain yn gyhoeddus ac ar-lein.

**Cofiwch:**

- Ni ddylech ddisgwyl preifatrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, oherwydd gall sylwadau a chynnwys gael eu hanfon ymlaen at eraill yn hawdd. Ar ôl ei anfon ymlaen, mae'r cynnwys y tu hwnt i'ch rheolaeth chi.
- Mae gweithgareddau y tu allan i'r gwaith sy'n effeithio ar fuddiannau ac enw da Estyn yn dod o dan ein polisïau a'n harweiniad, a gall fod canlyniadau difrifol i dorri'r rhain. Gallech wynebu camau disgyblu a/neu gael eich diswyddo. Os ystyrir bod eich gweithredoedd yn drosedd, gallent arwain at eich erlyn hefyd.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos yr effeithiau cadarnhaol y gall y cyfryngau cymdeithasol eu cael.

**Targedu cynulleidfa newydd ar gyllideb isel**

**Estyn**

Yng ngwanwyn 2019, cynlluniom yr ymgyrch i recriwtio pobl ifanc i ddod yn rhan o dimau arolygu. Dyma'r tro cyntaf i ni ymgysylltu â myfyrwyr coleg yn y ffordd hon.

Ein targed oedd recriwtio 25 o fyfyrwyr arolygu. Creom gyfres o wyth ffilm gan ddefnyddio aelodau staff Estyn i apelio i'r gynulleidfa 18 i 25 oed. Roedd y ffilmiau'n galw ar bobl ifanc i wneud cais am rôl Myfyriwr Arolygu.

Trwy weithio'n agos gyda'r timau cyfathrebu mewn colegau addysg bellach, fe wnaethom hefyd greu posteri, graffigau i'r cyfryngau cymdeithasol ac ap yn canolbwyntio ar wneud y deunyddiau gweledol yn ddeniadol, i wneud ein negeseuon yn gofiadwy.

Gwelwyd ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol ar Twitter 58,249 tro a 626 ymgysylltiad. Fe wnaethom hybu postiadau'r fideo ar Facebook am gost o £200, gyda'r fideo Saesneg yn cyrraedd 25,317 ac yn cael ei wylio gyfanswm o 2,177 tro a'r fideo Cymraeg yn cyrraedd 25,825 ac yn cael ei wylio gyfanswm o 2,179 tro.

Roedd creu arddull brandio newydd ar gyfer ymgyrch y myfyrwyr arolygu wedi arwain at wahodd 24 o fyfyrwyr i'n hyfforddiant. Roedd naws fwy hamddenol y ffilmiau wedi annog ymgysylltiad â'r grŵp oedran ac roedd gweithio gyda cholegau AB wedi helpu i ledaenu ein negeseuon ymhellach. Roedd y colegau'n rhagweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol ac, yn sicr, fe wnaeth arddangos y posteri a'r cynnwys atodol digidol ar y campws helpu cyrhaeddiad yr ymgyrch.

**Coffâd Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf**

**Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

Ym mis Hydref 2012, amlinellodd y Llywodraeth ei huchelgais am goffâd gwirioneddol genedlaethol ar gyfer canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, y byddai gwaddol addysgol a diwylliannol barhaus yn deillio ohono.

I fodloni amcanion Deall, Cofio a Chydnabod, targedodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gynulleidfa genedlaethol, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc a mamau plant oed ysgol.

Roedd creu adlais emosiynol yn hanfodol ar gyfer dod â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw a'i wneud yn ystyrlon i gynulleidfaoedd yr 21ain ganrif. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda disgynyddion a chreu astudiaethau achos a fyddai'n ennyn diddordeb pobl ar draws y Deyrnas Unedig. Ymgyrch gwbl integredig a arweiniwyd yn ddigidol yw hon, gyda chynlluniau cynnwys pwrpasol i'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer pob prif ddigwyddiad a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth cyson rhyngddynt.

Cyflawnodd yr ymgyrch hon rai ystadegau trawiadol. Cafodd y sylw ar y cyfryngau cymdeithasol i goffadwriaeth y cadoediad 1.2 filiwn o grybwylliadau a chyflawnodd 809 miliwn o argraffiadau, gydag ymgysylltiad mewn 164 o wledydd ledled y byd. Hefyd, ers dechrau'r ymgyrch, mae'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol wedi croesawu dros 9 miliwn o ymwelwyr i'w hamgueddfeydd, sef cynnydd o 21% o gymharu â'r pedair blynedd cynt. Helpodd yr ymgyrch gyfeirio dros 8 miliwn o storïau bywyd at wefan 'Bywydau'r Rhyfel Byd Cyntaf' yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol.

## Atodiad 2 – Cwestiynau cyffredin

**Os nad ydw i'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, sut mae'r polisi'n berthnasol i mi?**

Hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol y tu allan i'r gwaith, mae eich cydweithwyr, eich ffrindiau a'ch teulu'n gallu rhannu gwybodaeth amdanoch a lluniau ohonoch chi. Os nad ydych am iddynt rannu unrhyw beth amdanoch ar eu cyfryngau cymdeithasol, dylech drafod eich dewisiadau gyda nhw. O ran eich gwaith, mae'r polisi hwn yn ategu'r strategaethau digidol sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil; ei nod yw datblygu gallu digidol ymhellach ar draws y Gwasanaeth Sifil.

**Beth am fy hawl i breifatrwydd?**

O dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), mae gan bawb yr hawl i barch tuag at eu bywyd preifat. Mae'r polisi hwn yn parchu'r hawl i breifatrwydd ac mae'n ceisio cynnal yr hawl honno trwy annog eraill i barchu eich hawliau preifatrwydd ar-lein.

**Beth am fy hawl i ryddid mynegiant?**

Mae'r Confensiwn yn datgan hefyd fod gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Fodd bynnag, gyda hawliau daw cyfrifoldebau, ac ni ddylid postio'ch barn ar-lein os byddant yn niweidio hawliau neu enw da pobl a sefydliadau eraill.

**Rwy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fy amser personol, felly pam gall fy nghyflogwr fy nisgyblu i am eu defnyddio'n amhriodol?**

Yn gyffredinol, nid yw'r ffordd rydych chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol y tu allan i oriau gwaith o ddiddordeb i ni o gwbl, ar yr amod nad yw'n effeithio'n niweidiol arnom ni, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu ein rhanddeiliaid eraill. Oherwydd bod y cyfryngau cymdeithasol yn gyhoeddus, mae gan eich cyflogwr yr hawl i ymchwilio i unrhyw beth sy'n cael effaith negyddol arno.

**Beth os ydw' i wedi gwneud camgymeriad ar-lein?**

Dilëwch y post neu'r cynnwys cyn gynted ag y gallwch, ond cofiwch y gall pobl eraill fod wedi'i anfon ymlaen neu ei gopïo yn barod. Byddwch yn onest am eich camgymeriad a cheisiwch ei gywiro, lle bo'n bosibl. Os bydd y wybodaeth am Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu ein rhanddeiliaid eraill, dywedwch wrth eich rheolwr cyn gynted â phosibl.

**Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n meddwl mod i'n cael fy mwlio neu fy aflonyddu ar-lein?**

Os ydych chi'n teimlo y gallwch wneud, siaradwch â'r unigolyn a gofyn iddo roi'r gorau iddi; gallai hyn ddatrys y sefyllfa yn gyflym, oherwydd efallai nad yw'n sylweddoli'i fod yn sarhaus. Os nad ydych yn teimlo y gallwch chi wneud neu os nad yw gwneud hynny'n datrys y sefyllfa, cyfeiriwch at y polisi ar fwlio ac aflonyddu neu siaradwch â'r tîm AD am gyngor. Hefyd, gallwch siarad â'ch rheolwr llinell neu aelod

o fwrdd gweithredol y PCS/FDA yn gyfrinachol. Os oes modd, gwnewch gofnod o'r postiadau neu'r cynnwys sarhaus (er enghraifft trwy dynnu sgrinlun neu ei argraffu).

**Beth os bydd trydydd parti yn priodoli sylw i mi ar y cyfryngau cymdeithasol a ddywedais wrthynt yn breifat?**

Mae'n bosibl y gallai trydydd parti briodoli datganiadau neu farn i chi na fwriadoch neu na fyddech wedi'i bostio eich hun. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ofyn i'r sawl a wnaeth y datganiad p'un a fyddent yn barod i'w ddileu, ond ni ddylech bwyso arno i wneud oherwydd gallai hyn waethygu'r sefyllfa. Mae'n bwysig nad ydych yn mynd i unrhyw drafodaeth gyda'r person dan sylw, ac ni ddylech geisio rhoi datganiadau i neb am y post dan sylw.  Os oes gan y sylw gysylltiadau â'ch swydd, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell am yr hyn sydd wedi digwydd.

Yn gyffredinol, dylech bob amser fod yn ofalus ynghylch beth rydych chi'n ei drafod, a chyda phwy:

- Peidiwch â datgelu gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol am bobl eraill, eich gwaith na'ch gweithle, oherwydd gallai hyn fod yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data neu ddeddfwriaeth arall.
- Peidiwch â difenwi unigolion neu sefydliadau (postio celwyddau).
- Peidiwch â bwlio, aflonyddu na gwahaniaethu.
- Peidiwch â thorri cyfreithiau hawlfraint.

## Atodiad 3 – Dolenni defnyddiol

- **Get Safe Online -** https://www.getsafeonline.org/
- Gwybodaeth ddiduedd, ffeithiol a hawdd ei deall am y cyfryngau cymdeithasol.
- **Digital Unite** - http://digitalunite.com/
- Cyfleoedd dysgu a chymorth i ddefnyddio technoleg ar-lein (gan gynnwys Facebook, Twitter a blogiau).
- **Arweiniad ar y cyfryngau cymdeithasol** - https://www.gov.uk/government/publications/social-media-guidance-for-civil-servants/social-media-guidance-for-civil-servants
- **Gwybodaeth y GCS am wedduster ar y cyfryngau cymdeithasol** https://gcs.civilservice.gov.uk/guidance/propriety-in-digital-and-social-media/